Bwrdd Gweithredol Tŷ'r Cwmnïau - cofnodion cryno - 26 Mawrth 2009

Strategaeth Ffioedd 2010
Gan fod y Bwrdd wedi cytuno ar ei strategaeth a'i fap ffyrdd strategol, byddai angen cytuno bellach ar strategaeth glir ar gyfer cyllid a ffioedd. Nododd yr aelodau y fframwaith cyfreithiol y mae'n rhaid i Dŷ'r Cwmnïau gadw ato wrth bennu ei ffioedd gan gytuno ar yr egwyddorion sylfaenol gyda rhagor o waith i gael ei orffen yn y mis dilynol.

Meicro-endidau – Deilliannau'r cynnig
Yn sgil cyhoeddi cynnig yr Undeb Ewropeaidd y dylai cwmnïau meicro gael eu hesemptio rhag cyhoeddi eu cyfrifon, roedd rhywfaint o waith paratoi wedi'i wneud i ystyried yr effaith bosibl ar gwsmeriaid ac ar Dŷ'r Cwmnïau.

Ymddiried mewn Gwybodaeth
Roedd ymchwil ddiweddar yn dangos bod 90% o'n cwsmeriaid yn ymddiried yn yr wybodaeth roedden nhw'n ei chael gan Dŷ'r Cwmnïau. Serch hynny, fel rhan o'n strategaeth roedden ni'n ystyried opsiynau o ran sut y gallen ni gynyddu pa mor ddibynadwy oedd y data ar y Gofrestr.

Ailstrwythuro a Thrawsnewid Gwasanaethau (STAR) – Diweddariad
O safbwynt y gweithredu, roedd dwy elfen allweddol i'w nodi, sef llwyddo i gydgyfeirio WebCHeck a Webfiling ar Business Link ar 17 Mawrth a lansio'r porth ar gyfer cyfryngwyr. Roedd pob prosiect arall yn cyd-fynd â'r amserlen.

Rhaglen y Ddeddf Cwmnïau (CAP)
Yn gyffredinol mae'r rhaglen yn dal i gyd-fynd â'r amserlen i'w rhoi ar waith ym mis Hydref. Roedd y risgiau mewn perthynas â gosod yr is-ddeddfwriaeth yn brydlon yn y Senedd yn crebachu.

Diweddariad am y Bwrdd Busnes Asiantaeth (ABB) a Cherdyn Sgorio Busnes
Darparwyd diweddariad misol i'r Bwrdd gan yr ABB. Nododd y Bwrdd fod y gwaith cydymffurfio yn mynd o nerth i nerth. Byddai'r Cynllun Peilot Prosesu Cellog yn dechrau ar 30 Mawrth ac roedden ni'n cyd-fynd â'r amserlen i sicrhau ein gostyngiad effeithlonrwydd o 5%.

Ystadegau'r Llwyth Gwaith
Uchafbwyntiau mis Chwefror oedd bod yna 27k o ymgorfforiadau; bod yna 27k o ddiddymiadau hefyd; bod morgeisiau i lawr i 12k a bod datodiadau wedi cynyddu ychydig i 12k. Yn gyffredinol roedd nifer y trafodion ar y gofrestr yn weddol sefydlog o'r naill flwyddyn i'r llall a oedd yn dda ar gyfer incwm.

Adolygiad o Risgiau Critigol y Bwrdd Gweithredol
Adolygodd yr aelodau y gofrestr risgiau gyfredol, gan gytuno i newid statws rhai o'r risgiau a oedd wedi'u rhestru. Nodwyd hefyd y byddai'n rhaid i Dŷ'r Cwmnïau gyfrannu at adroddiad ehangach gan BERR ar drin data a materion sicrwydd gwybodaeth.

Adroddiad Iechyd a Diogelwch
Yn ychwanegol at Adolygiad Cydymffurfio Cyfreithiol CHSS a gynhaliwyd y llynedd, roedd cynnydd yn cael ei wneud yn unol â'r amserlen i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safon mewn pryd ar gyfer yr adolygiad nesaf (Mehefin 2009).

Ysgrifenyddiaeth Tŷ'r Cwmnïau
Mawrth 2009